# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Archwilio Cymunedau | Dyddiad: | Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015 |
| | | Deialu Union: | 01824 712554 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU** sydd i'w gynnal am **9.30 am, DYDD IAU, 17 RHAGFYR 2015 yn YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad(au) canlynol.

**Rhif Agenda** **Eitem**

**4** **COFNODION** (Tudalennau 3 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar:

(i) 5 Tachwedd, 2015 (copi ynghlwm).
(ii) 16 Tachwedd, 2015 (copi ynghlwm)

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

**AELODAETH**
**Cynghorwyr**

Brian Blakeley
Bill Cowie
Peter Arnold Evans
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Rhys Hughes
Win Mullen-James
Bob Murray
Anton Sampson
Cefyn Williams
Cheryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Llun, 16 Tachwedd 2015 am 2.00 pm yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun**

**Presennol:**

Cynghorwyr Brian Blakeley, Bill Cowie, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Bob Murray, Anton Sampson, Cefyn Williams a Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig - John Piper a Gareth Williams

Aelod Arweiniol dros Addysg, Cynghorydd Eryl Williams

**Hefyd yn bresennol:**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Swyddog Monitro (GW), Pennaeth Addysg (KIE), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Rheolwr Rhaglen, Moderneiddio Addysg (JC), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KAE)

---

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Peter Evans, Win Mullen-James ac Aelodau Cyfetholedig Gill Greenland, Debra Houghton a Dr Dawn Marjoram.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Cafwyd datganiadau o gysylltiad personol nad oedd yn rhagfarnu gan y bobl ganlynol:

Aelodau Cyfetholedig:
Gareth Williams - Aelod cyfetholedig sy'n cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru ar Graffu.
Datganodd John Piper gysylltiad personol – mae aelod o'r teulu yn mynychu Ysgol Llanfair DC.

Y Cynghorwyr:
Martyn Holland - aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bro Fammau
Huw Hilditch-Roberts - Cynrychiolydd Awdurdod Addysg Lleol a Chadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras, plentyn sy'n mynychu Cylch Meithrin yn Ysgol Pentrecelyn ac un o breswylwyr Pentrecelyn.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4 GALW I MEWN PENDERFYNIAD Y CABINET A WNAED AR 27 HYDREF 2015 YN YMWNEUD AG YSGOL LLANFAIR DYFFRYN CLWYD AC YSGOL PENTRECELYN

Roedd adroddiad yn manylu ar y rhesymau dros alw penderfyniad y Cabinet ar 27 Hydref 2015 i mewn, mewn perthynas â'r ysgolion uchod wedi ei gyhoeddi cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys copi o Weithdrefn Galw i Mewn y Cyngor a Nodiadau Arweiniad. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi cael dolen i adroddiad y Cabinet ar 27 Hydref a phapurau cysylltiedig sydd ar gael ar wefan y Cyngor cyn y cyfarfod.

Cyn dechrau’r drafodaeth eglurodd y Cadeirydd y rhesymau pam fod y cyfarfod wedi ei alw a'r broses a fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod, a fyddai'n cynnwys rhoi cyfle i gynrychiolydd ar ran cyrff llywodraethu Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn i annerch y Pwyllgor.

Eglurodd y Swyddog Monitro ddiffiniad cysylltiadau ‘personol’ ac ‘sy’n rhagfarnu’ gan eu bod yn berthnasol i aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Cabinet. Oherwydd y tybir bod gan aelodau'r Cabinet gysylltiad ‘sy’n rhagfarnu’ â’r mater, nid oedd hawl ganddynt i fynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, roedd yr Aelod Arweiniol dros Addysg wedi’i eithrio rhag bod â chysylltiad ‘sy’n rhagfarnu’ yn yr achos hwn gan ei fod wedi ei wahodd i fod yn bresennol gan y Pwyllgor i ateb cwestiynau a phwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Darparwyd eglurhad o'r gyfraith sy'n llywodraethu galw i mewn o ran penderfyniadau’r Cabinet / Gweithredol, gan gynnwys yr amserlenni a'r broses gysylltiedig, gan y Swyddog Monitro. Eglurodd ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor benderfynu ar ddiwedd y drafodaeth, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd iddo yn ystod y cyfarfod, a oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau iddo ofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol a'r sail dros y cais i adolygu ai peidio. Pe bai’r Pwyllgor yn penderfynu bod sail i ofyn i’r Cabinet ail-ystyried ei benderfyniad, byddai'r atgyfeiriad yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod nesaf sydd ar gael.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Arwel Roberts, fel prif lofnodwr y ‘rhybudd o alw i mewn’ i gyflwyno'r achos i adolygu penderfyniad y Cabinet. Pwysleisiodd, er ei fod ef a'i gyd-lofnodwyr yn croesawu'r penderfyniad i adeiladu ysgol ardal newydd, eu bod yn siomedig y byddai'r ysgol newydd yn ysgol Categori 2, dwy ffrwd, yn lle'r ysgolion Categori 1 (Cyfrwng Cymraeg) a Chategori 2 presennol. Roeddent o'r farn bod y dull hwn yn tanseilio polisi cenedlaethol. Roedd penderfyniadau diweddar yn Sir Gaerfyrddin wedi gweld ysgol Categori 2 dwy ffrwd yn cael ei disodli gan ysgol Categori 1. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi comisiynu Cefin Campbell i gynnal astudiaeth ar gyflwr yr iaith Gymraeg yn y sir yn sgil cyhoeddi ystadegau Cyfrifiad 2011 ar y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir. Un o'r argymhellion yn adroddiad Mr Campbell oedd y dylai'r Cyngor gymryd camau i gefnogi ysgolion i symud o fod yn ddarparwyr addysg ddwyieithog i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd llofnodwyr y penderfyniad i alw i mewn o'r farn y byddai’r ddadl a gyflwynwyd yng nghyfarfod diweddar y Cabinet, y byddai ysgol Categori 2 yn yr ardal benodol hon yn cyflawni'r un canlyniadau addysgol ac ieithyddol ag ysgol

Categori 1, yn gosod cynsail peryglus ar gyfer y dyfodol.  Roeddent yn cydnabod bod Ysgol Llanfair DC ar hyn o bryd yn ysgol sy'n perfformio'n dda ac sy'n sicrhau canlyniadau addysgol ac ieithyddol da ar gyfer ei disgyblion trwy'r ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, gyda'r mwyafrif yn gorffen eu haddysg yn yr ysgol yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg.  Serch hynny, roeddent yn teimlo y gallai dynodi'r ysgol newydd yn ysgol Categori 2, adael yr ysgol mewn perygl o'i hethos ieithyddol yn cael ei leihau a'i wanhau ar ryw adeg yn y dyfodol.
Yna anerchodd Cadeirydd Ysgol Llanfair DC y Pwyllgor.  Yn ystod ei anerchiad amlygodd y pwyntiau canlynol:

- bod llawer o godi bwganod wedi bod yn digwydd;
- nid oedd unrhyw gynigion i newid y pennaeth neu athrawon yn Ysgol Llanfair DC;
- roedd mwyafrif y disgyblion yn Ysgol Llanfair DC yn cael eu haddysgu yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg ac roedd pob plentyn yn ddwyieithog pan oeddent yn gadael yr ysgol yn 11 oed;
- roedd yn ysgol gymunedol, gynhwysol, dwyieithog, dda a oedd yn darparu canlyniadau da ar gyfer ei disgyblion;
- yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf roedd y Corff Llywodraethu wedi ystyried a ddylid newid ei gategori o ysgol Categori 2 i ysgol Categori 1, ond roeddent wedi dod i'r casgliad eu bod yn wynebu'r risg o golli nifer o rieni di-Gymraeg pe baent yn gwneud hyn - rhieni na fyddai o bosibl yn gyfforddus wrth optio i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer eu plentyn ar y dechrau. Roedd y model a weithredir ar hyn o bryd yn Ysgol Llanfair DC wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ystod y cyfnod hwn wrth sicrhau trosglwyddo disgyblion o'r ffrwd cyfrwng Saesneg i'r ffrwd Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gyda nifer uchel o'r disgyblion hynny wedyn yn trosglwyddo i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu haddysg uwchradd;
- ym marn y Corff Llywodraethu, y model Categori 2 sydd ar hyn o bryd yn weithredol yn Ysgol Llanfair DC oedd y model mwyaf cydlynol ar gyfer darparu addysg yn y dyfodol yng Nghymru;
- roedd 120 o rieni a chyn ddisgyblion Ysgol Llanfair DC wedi llofnodi llythyr a anfonwyd at aelodau'r Pwyllgor a oedd yn dangos gwerth y ddarpariaeth addysg yn yr ysgol.  Roedd y llofnodwyr hyn yn cynnwys rhieni sy'n siarad Cymraeg a rhieni di-Gymraeg;

Wrth gloi ei anerchiad, ail-bwysleisiodd Cadeirydd y Llywodraethwyr ymrwymiad y Corff Llywodraethu a'r ysgol i'r iaith Gymraeg, ac i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion.  Roedd llywodraethwyr, staff a rhieni yn Ysgol Llanfair DC yn parchu ac yn oddefgar tuag at safbwyntiau gwahanol, ond roeddent wedi teimlo wedi eu brifo a'u bradychu yn ddiweddar gan annifyrrwch y sefyllfa bresennol a sylwadau a wnaed gan rai unigolion.  Roeddent yn bryderus ar gyfer dyfodol cydlyniant cymunedol yn Llanfair DC a Phwllglas, lle roedd y ddwy iaith wedi bodoli yn dda ochr yn ochr am gyfnod hir o amser.

Roedd Corff Llywodraethu Ysgol Pentrecelyn wedi gofyn am ganiatâd gan y Cadeirydd i'r benodi un o'r rhieni i ddarllen datganiad ar eu rhan, gan nad oedd Cadeirydd y Corff Llywodraethu nac unrhyw un o'r Llywodraethwyr yn teimlo'n gyfforddus wrth annerch y Pwyllgor. Roedd y Cadeirydd wedi caniatáu'r cais ac amlinellodd y cynrychiolydd y pwyntiau canlynol a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu:

- roedd yr ymgynghoriad wedi ei gynnal mewn enw yn unig, roedd y penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor o'r cychwyn cyntaf;
- roedd y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ganolog i'r cynnig i ad-drefnu ysgolion. Roedd y Cod yn pennu y dylai'r cyhoedd fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol. Er mwyn tynnu sylw at hyn cyfeiriwyd at achos McCann vs Pen-y-bont ar Ogwr a rhoddwyd enghreifftiau o sut ym marn y Corff Llywodraethu nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn, h.y. cyfarfodydd gyda'r Corff Llywodraethu wedi'u torri'n fyr, trafodaethau ynghylch categoreiddio iaith wedi'u gadael, papurau wedi'u cyhoeddi heb drafodaeth lawn ar eu cynnwys, camliwio niferoedd disgyblion (yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn hytrach nag ar ffigurau rhagamcaniad disgyblion a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu yn seiliedig ar niferoedd presennol a niferoedd meithrin o fis Ionawr 2016, peidio â dilyn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor ei hun trwy ddewis sefydlu ysgol Categori 2 yn y dechrau er bod y CSCA yn argymell symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith, peidio darparu tystiolaeth ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth iaith Gymraeg mewn ysgol Categori 2 a'r ffaith y byddai y rhan fwyaf o ddisgyblion (78%) yn yr ysgol newydd yn dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- roeddent yn deall yn llawn y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac yn rhannu dymuniad a gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer ysgol newydd fodern ar gyfer yr ardal, roedd craidd yr anghytundeb yn gorwedd gyda'r categoreiddio iaith. Er bod Comisiynydd y Gymraeg, y Corff Llywodraethu a'r gymuned leol wedi mynegi pryderon ar y mater hwn nid oedd unrhyw ymdrech wedi ei wneud i negodi neu liniaru'r effaith ar yr iaith Gymraeg, a arweiniodd y Corff Llywodraethu i'r casgliad bod yr ysbryd o ymgynghori wedi ei anwybyddu a bod y penderfyniad wedi'i bennu ymlaen llaw;
- roedd y llythyr a roddwyd i'r Esgobaeth cyn cyfarfod y Cabinet yn cadarnhau mai dim ond un canlyniad posibl oedd - bod y penderfyniad wedi ei wneud ym mhob peth ond enw;
- ers penderfyniad y Cabinet ar 27 Hydref roedd ffactorau eraill wedi dod i mewn a oedd yn ehangu pryderon y Corff Llywodraethu o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd, sef penderfyniad y Cabinet i gau ysgol arall Categori 2 yn ardal Rhuthun, Ysgol Rhewl, ar yr amod y byddai cludiant ysgol am ddim ar gael i'r rhai sydd am fynychu ysgol Categori 2 i fynychu'r ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfair DC / Pentrecelyn, a phenderfyniad arall i gau ysgol eglwys wledig yn ardal Rhuthun, a allai arwain at fwy o ddisgyblion

yn cael mynediad i'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn ysgol ardal newydd arfaethedig Llanfair DC / Pentrecelyn. Gallai'r penderfyniadau eraill hyn o bosibl gael goblygiadau pellgyrhaeddol ar yr ysgol newydd yn Llanfair DC/Pentrecelyn;

- yn seiliedig ar yr uchod roedd y Llywodraethwyr yn gofyn i'r Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet yn gofyn iddynt ailystyried y penderfyniad gwreiddiol yng ngoleuni'r dystiolaeth newydd a oedd heb ei hystyried o'r blaen, adolygu cyflwyniadau ac adroddiadau gwrthwynebiad, a gofyn iddynt ymgymryd ag asesiad newydd o effaith ar iaith ac asesiad newydd o effaith ar y gymuned gan ystyried effaith bosibl mudo disgyblion ychwanegol a amlinellir uchod. Dylid gofyn i'r Cabinet hefyd adolygu ei weithrediad o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a systemau ymgynghori cyhoeddus, y niferoedd sy'n chwilio am addysg cyfrwng Cymraeg, a oedd cymarebau disgybl athro yn gynaliadwy yn erbyn rhagamcanion ariannol yn y dyfodol, a bod canllawiau llymach yn cael eu darparu ar gyfer cynnal addysg cyfrwng Cymraeg gydag ysgol Categori 2 a / neu adolygu diffiniadau o'r gwahanol gategorïau.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd rhoddodd y Pennaeth Addysg ddiffiniad cynhwysfawr o ddarpariaeth addysg mewn ysgolion Categori 1 a Chategori 2 – mae Categori 1 yn darparu addysg 100% drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd cyfathrebu rhwng staff a disgyblion ac asesiadau disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ysgolion Categori 2 yn ysgolion darpariaeth dwy ffrwd. Mewn ysgol Categori 2 roedd y rhieni yn dewis a oedd eu plentyn yn mynd i naill ai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg neu'r ffrwd cyfrwng Saesneg. Os byddai plentyn yn mynd i mewn i'r ffrwd cyfrwng Cymraeg, byddai eu haddysg yn cael ei darparu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai eu rhyngweithio gyda'r athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg fel y byddai eu hasesiadau disgyblion. Pe baent yn dewis i'w plentyn fynd i mewn i'r ffrwd cyfrwng Saesneg byddent yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Saesneg ac yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg, ond byddai Cymraeg yn cael ei gyflwyno trwy gyfathrebu ac yn raddol wrth i'w hyder a'u cymwyseddau yn y defnydd o'r iaith dyfu, byddent yn cael mwy o'u cyfarwyddyd drwy'r iaith. Mewn ysgol Categori 2 lwyddiannus, yn debyg i Ysgol Llanfair DC, wrth i hyder a chymhwysedd yn yr iaith dyfu, dewisodd y rhan fwyaf o'r plant a oedd wedi mynd i mewn i'r ysgol yn y ffrwd Saesneg drosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg cyn diwedd eu haddysg yn yr ysgol, gyda nifer ohonynt yn symud ymlaen i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Llywodraeth Cymru (LIC) a bennodd y diffiniad ar gyfer y gwahanol 'gategorïau', nid oedd o fewn rhodd yr awdurdod lleol.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor, dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, y Pennaeth Addysg a Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg:

- roedd Corff Llywodraethu'r Ysgol yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol ar gyfer darparu addysg dwy ffrwd. Roedd pob ysgol yn wahanol, o ganlyniad roedd gwahanol ddulliau yn gweddu i wahanol ysgolion. Roedd rhai ysgolion

yn ei darparu ochr yn ochr yn yr un dosbarth, tra bod ysgolion eraill yn dewis addysgu'r disgyblion mewn dosbarthiadau ar wahân;

- yn Llanfair DC byddai disgyblion a oedd yn mynd i mewn i'r ysgol yn y Dosbarth Derbyn yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol (CA) 2. O ganlyniad, byddai nifer o rieni wedyn yn dewis i'w plentyn barhau gweddill eu haddysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yna cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor at y pum pwynt a restrir yn Atodiad 2 i'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r sail ar gyfer galw i mewn penderfyniad y Cabinet ar gyfer adolygiad. Holodd aelodau'r Pwyllgor yr Aelod Arweiniol dros Addysg a Phenaethiaid Gwasanaethau ar y cwestiynau hyn. Rhoddwyd eglurhad fel a ganlyn:

- amlinellwyd y broses ar gyfer mynd i'r afael â nifer y lleoedd dros ben yn y sector addysg gynradd yn ardal Rhuthun - roedd yna oddeutu 23% o leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd yn yr ardal. Wrth gynllunio i fynd i'r afael â'r broblem hon, roedd yn rhaid i'r Cyngor archwilio dewis rhieni ar gyfer darpariaeth addysg, h.y. cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a darpariaeth seiliedig ar ffydd, a llunio cynlluniau i sicrhau y byddai digon o leoedd yn y math o addysg a ddewisir yn y dyfodol i ddiwallu anghenion disgyblion. Roedd rhieni yn rhan allweddol o'r broses ymgynghori drwy gydol y cyfnod pan gafodd y cynlluniau hyn eu llunio;
- roedd pob ymarfer ymgynghori wedi digwydd drwy nifer o ddulliau gwahanol, h.y. cyfarfodydd cymunedol, cyfarfodydd gydag ysgolion, rhieni a rhanddeiliaid, yn ogystal â gwahanol fathau o gyfathrebu ysgrifenedig;

Ar y pum pwynt y cafodd y penderfyniad ei alw, rhoddwyd yr esboniadau canlynol gan yr Aelod Arweiniol a'r Penaethiaid Gwasanaeth:

1. **A yw'r pwyllgor craffu yn fodlon bod y penderfyniad a wnaed gan y cabinet yn wirioneddol agored i ddylanwad/newid yn unol â theimlad ymgynghoriad cyhoeddus?**

- Cafodd ffigurau PLASC eu defnyddio bob amser fel y sail ar gyfer unrhyw ymarfer ad-drefnu ysgolion, oherwydd cafodd y ffigurau cyfrifiad hyn eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn ac felly roeddent mor gywir ag y gallent fod. Fodd bynnag, byddai elfen o amrywiad o ran nifer disgyblion mewn unrhyw ysgol;
- Byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu rhoi yng nghynlluniau ysgol newydd er mwyn darparu lefel o amrywiad, a gan nad oedd y cynlluniau ar gyfer yr ysgol ardal newydd hon wedi'u llunio eto, byddai'n hawdd llunio'r cynlluniau gan ystyried nifer y lleoedd a ragwelir y byddai eu hangen i ddisgyblion, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion ychwanegol sy'n trosglwyddo o ysgolion eraill yr effeithir arnynt gan Adolygiad Ardal Rhuthun;
- Roedd y ffaith bod y Cabinet wedi amrywio'r dyddiadau ar gyfer cau o ddeuddeg mis, o 31 Awst, 2016 i 31 Awst 2017, yn dilyn y penderfyniad

gwreiddiol a gafodd ei alw i'w graffu, yn cadarnhau'r ffaith bod y Cabinet yn agored i ddylanwad a newid.  Yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad, a oedd wedi ystyried y galwad hwnnw, roedd y Cabinet wedi cytuno y dylid ystyried y ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol Categori 1 agosaf ar sail achos wrth achos ar gyfer disgyblion a brodyr a chwiorydd disgyblion presennol Ysgol Pentrecelyn

**2. A yw effaith mudo disgyblion ar broffil iaith yr ysgol newydd wedi'i ystyried yn llawn?**

- Mae prosiect ad-drefnu ysgolion Sir Ddinbych wedi ei wneud ar sail ardal wrth ardal, yn benodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag ail-ddarparu lleoedd ysgol wedi'u gwneud ar wahân.  Y cynigion ar gyfer ysgol ardal newydd yn ardal Llanfair DC/Pentrecelyn oedd cynnyrch adolygiad ehangach ardal Rhuthun.  Amcan mabwysiadu'r ymagwedd hon oedd lliniaru'r risg o benderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ysgolion unigol yn cael effaith negyddol ar ysgolion cyfagos eraill;
- Er y gellid amcangyfrif cyfraddau geni mewn ardal yn weddol gywir, roedd rhagfynegi dewisiadau rhieni o ran addysg eu plant yn fwy anodd;
- Roedd angen i effaith bosibl Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor (CDLl) gael ei gynnwys hefyd yn y cam cynllunio wrth gyflwyno cynigion ar gyfer darpariaeth addysg yn y dyfodol, fel y gwnaeth y gronfa wrth gefn o 10% ar gyfer amrywiad yn nifer y disgyblion wrth gynllunio ar gyfer ysgol newydd;
- Yn wyneb y ffactorau uchod, ac i liniaru'r risg o golli disgyblion rhag bod yn agored i'r iaith Gymraeg a'u heithrio o'r cyfle i ennill sgiliau iaith Gymraeg lefel uchel, daethpwyd i'r casgliad mai ysgol Categori 2, dwy ffrwd, fyddai'r ysgol fwyaf priodol i ardal Llanfair DC/Pentrecelyn;
- Gyda'r posibilrwydd y byddai disgybl yn mudo o Ysgol Rhewl, a gyda'r posibilrwydd i'r niferoedd hynny danseilio/gwanhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yn yr ysgol ardal newydd maes o law, eglurwyd gan fod y Cyngor yn cau ysgol Categori 2, ei fod yn bwriadu cynnig ysgol Categori 2 arall fel rhan o'u dewisiadau.  Ar hyn o bryd, dim ond dau ddisgybl a gafodd eu haddysgu yn y ffrwd Gymraeg yn Ysgol Rhewl, cafodd y gweddill eu haddysgu yn y ffrwd Saesneg. Dewis y rhieni fyddai anfon y plant hynny i ysgol Categori 1, Categori 2 neu Gategori 4 neu 5 maes o law;
- Rhagwelwyd effaith ieithyddol ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol bresennol i fod fel a ganlyn.  Byddai cau Ysgol Pentrecelyn yn golygu y byddai disgyblion presennol yn trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn naill ai ysgol Categori 1 neu ysgol Categori 2.  Fodd bynnag, os oedd yr ysgol ardal newydd a agorwyd yn ysgol Categori 1, gall nifer o ddisgyblion o Ysgol Llanfair DC drosglwyddo i ysgol Categori 4 neu Gategori 5.  Os byddai hyn yn digwydd, byddai'r plant yn colli'r Gymraeg a byddai'n niweidiol i'r iaith yn yr ardal;

- Rhoddodd ysgol Categori 1 ddewisiadau a chyfleoedd ychwanegol i rieni a disgyblion

**3. Cyfeiriwyd at ddogfen a anfonwyd gan y cyngor i'r esgobaeth ar 23/10/2015 yn y cyfarfod cabinet gan y Cynghorydd Huw Williams a grëwyd cyn gwneud y penderfyniad, a yw hyn yn golygu y cafodd y penderfyniad ei bennu ymlaen llaw?**

- Eglurodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor y diffiniad cyfreithiol o 'rhagderfynu', gan esbonio bod yn rhaid i feddwl y 'penderfynwr' fod wedi ei gau i unrhyw benderfyniad arall posibl er mwyn i benderfyniad fod wedi'i ragderfynu. Roedd y term 'penderfynwr' yn allweddol wrth ystyried a gafodd y penderfyniad ei 'ragderfynu'. Yn yr achos hwn, yr unig benderfynwr oedd y Cabinet, neb arall.
- Roedd y llythyr y cyfeiriodd y pwynt hwn ato yn llythyr 'drafft', a anfonwyd o dan e-bost at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Esgobaeth Llanelwy gan swyddog o Wasanaeth Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg y Cyngor. Cafodd copi o'r e-bost ei ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor. Roed yr e-bost yn datgan yn glir fod y llythyr yn "gopi <u>drafft</u> o'r llythyr penderfynu cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud yr wythnos nesaf." Aeth yr e-bost ymlaen i ddweud "<u>os</u> caiff y cynnig ei bennu" y byddai'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi llythyr pennu o fewn 7 diwrnod i wneud y penderfyniad, ac oherwydd yr amserlen dynn, y gofynion cyfieithu a gwyliau'r hanner tymor ar fin digwydd, roeddent yn gofyn am gymeradwyaeth yr Esgobaeth ar gyfer y geiriad i hwyluso cyfarfod y terfynau amser statudol pe bai'r argymhelliad i'r Cabinet yn cael ei gymeradwyo. Roedd hon yn broses flaengynllunio gwaith gweinyddol a wneir gan swyddog, nad oedd yn cynnwys y 'penderfynwr', h.y. y Cabinet, ar unrhyw adeg;
- Os byddai'r Cabinet wedi penderfynu yn erbyn cau ysgolion ac agor ysgol newydd ar 27 Hydref 2015, ac y byddai penderfyniad gwahanol wedi'i gymeradwyo, byddai angen cytuno ar eiriad newydd rhwng y Cyngor a'r Esgobaeth. Am nad oedd swyddogion yn gyfrin i unrhyw gynigion amgen a oedd yn debygol o gael eu cyflwyno, ni allent baratoi llythyr 'drafft' i'w ystyried ar hyd y llinellau hynny wrth ddisgwyl am benderfyniad o'r fath.

**4. Ystyried y ffaith bod yr argymhelliad yn nodi y bydd yr ysgol newydd yn Gategori 2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgol Pentrecelyn a Llanfair Dyffryn Clwyd wedi dewis cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Onid yw hyn yn golygu ei bod yn rhaid i'r ysgol newydd fod yn ysgol gategori 1.**

- Cadarnhawyd mai'r nifer cyfunol o ddisgyblion yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yw tua 78%. Roedd yr holl ddisgyblion ym Mhentrecelyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfair DC yn cael eu

haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.  Gan fod Llanfair DC yn ysgol Categori 2, yr hyn sy'n dueddol o ddigwydd yw bod rhai plant o gefndir di-Gymraeg yn mynd i'r ffrwd Saesneg ar ddechrau eu cyfnod addysg statudol.  Wrth iddynt symud ymlaen yn eu haddysg a chael eu trwytho yn yr iaith Gymraeg, mae eu rhieni yn dewis iddynt drosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg yn nes ymlaen. Mae'r dull a ddefnyddir yn Llanfair DC i gyflwyno'r iaith i ddisgyblion, a'u cefnogi a'u hannog i'w defnyddio, yn meithrin hyder yn y rhieni i ddewis iddynt gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg maes o law a pharhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.  Yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi golygu bod y mwyafrif o ddisgyblion ar ddiwedd CA2 yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg;

- Roedd y canlyniadau a fwriedir ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd Categori 1 a'r rhai sy'n mynychu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol Categori 2, yn union yr un fath, yn ogystal â fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn ei dogfen yn 2007 'Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg'

**5. Mae'r penderfyniad yn mynd yn erbyn Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Sir Ddinbych - cau ysgol categori 1, gan ddisodli'r ysgol yn yr ardal gydag ysgol categori 2, pan mae'r polisi'n datgan yn glir bod y cyngor yn dymuno symud ysgolion ar hyd y continwwm".**

- Nod y Cyngor yw symud yr holl ysgolion ar hyd y continwwm iaith.  Fodd bynnag, roedd y gwahanol ysgolion o fewn y categorïau amrywiol ar wahanol gamau yn y broses hon. Roedd hyn oherwydd eu lleoliad daearyddol ac ethos a diwylliant presennol yr ysgolion unigol.  Serch hynny, mewn ysgol Categori 2, byddai'r Cyngor yn disgwyl bod y staff a'r corff llywodraethu yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y ffrwd Saesneg yn barhaus;
- Mae gwaith diweddar a wnaed gan Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, a Chraffu wedi arwain at yr Awdurdod bellach yn gwybod sefyllfa pob ysgol unigol mewn perthynas â symud ar hyd y continwwm;
- Byddai'r CSCA ei hun yn barod am adolygiad mewn pryd ar gyfer diwedd y Cynllun cyfredol yn 2017. Disgwylir am gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â chynnwys y cynllun nesaf;
- Byddai'r cynnig yn yr achos hwn i sefydlu ysgol ardal newydd Categori 2 yn cefnogi darpariaeth dau ganlyniad penodol yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor (CSCA) 2014-17 sef:  "mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg" a "mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd";

- roedd y CSCA yn gynllun statudol a oedd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bu i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor fonitro a herio darpariaeth y Cynllun yn rheolaidd;
- er bod categoreiddio ysgolion yn hanesyddol, os byddai corff llywodraethu yn penderfynu ei fod am newid ei gategori iaith, byddai proses statudol yr oedd yn rhaid ei dilyn. Roedd y broses statudol hon yn cynnwys proses ymgynghori â'r holl randdeiliaid;
- nid oedd y penderfyniad yn mynd yn erbyn CSCA y Cyngor, oherwydd na allai sefydlu ysgol Categori 2 yn lle ysgol Categori 1 gael ei ddehongli fel rhywbeth a oedd yn israddio oherwydd y ffaith bod y canlyniadau a fwriedir ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ffrwd Gymraeg mewn ysgol Categori 2 yn union yr un fath â chanlyniadau disgyblion sy'n mynychu ysgol Categori 1;
- Nododd 'Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg' (2010) (paragraff 2.15) Llywodraeth Cymru a ddyfynnwyd gan un o'r llofnodwyr yn ystod y drafodaeth, "y dylai lleoliadau dwyieithog geisio darparu cymaint o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ag sy'n angenrheidiol i ddysgwyr fod yn rhugl yn y ddwy iaith"

Yn ystod ei grynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y ddadl, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr heriau a'r rhaniad yn y system categoreiddio iaith bresennol. Dywedodd y swyddogion eu bod yn cydnabod hyn a bod LlC bellach yn cydnabod yr heriau y mae categoreiddio yn eu hachosi.

Cyn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a oedd o'r farn bod y penderfyniad yn haeddu cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w adolygu, diolchodd y Cadeirydd i'r ddwy ysgol am eu safonau uchel, a chydnabu'r parch oedd yn bodoli tuag at y ddwy ysgol yn yr ardal.

Cynigiodd y Cynghorydd Cefyn Williams bod y Pwyllgor yn cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w adolygu ar y sail ganlynol:

(i) y penderfyniad i gau Ysgol Llanfair D C ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, a bod Esgobaeth Llanelwy yn agor ysgol gynradd dwy ffrwd Categori 2, yr Eglwys yng Nghymru a Reolir yn Wirfoddol o 1 Medi 2017, yn erbyn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor drwy ddisodli un ysgol Categori 1 ac un ysgol Categori 2 gydag ysgol Categori 2 ar gyfer yr ardal; ac

(ii) nid oedd effaith cau ysgol arall Categori 2, Ysgol Rhewl, a'r penderfyniad cysylltiedig i gynnig cludiant am ddim i ddisgyblion yr ysgol honno i'r ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfair D C a Phentrecelyn ar ethos yr ysgol ardal newydd, wedi cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol gyda rhanddeiliaid.

Cafodd y cynnig uchod ei eilio gan y Cynghorydd Brian Blakeley.  Wrth bleidleisio, roedd 4 aelod o blaid y cynnig a 6 aelod yn ei erbyn.  Dyma benderfyniad y Pwyllgor felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - ar ôl ystyried y rhesymau dros ofyn am adolygiad o benderfyniad y Cabinet a'r wybodaeth a ddarparwyd, nid oedd y penderfyniad yn deilwng i gael ei gyfeirio yn ôl i'r Cabinet i'w adolygu.***

Daeth y cyfarfod i ben am 15:50
</AI4>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag